

Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
Dydd Mawrth, 25 Mawrth 2014

Amser y cyfarfod:
13.30

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Agenda

(189)v4

1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau](#)

2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)

[Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)

3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Datganiad Polisi am yr Iaith Gymraeg – Ymateb i Adroddiadau ar y Mentrau Iaith a Chymunedau Gymraeg (30 munud)

Dogfennau Ategol

[Adolygiad o Waith y Mentrau Iaith, y Cynlluniau Gweithredu Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe](#)

[Cynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith – Adroddiad y Grwp Gorchwyl a Gorffen](#)

[Iaith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012 – 2017](#)

[Adroddiad y Grwp Gorchwyl a Gorffen ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd](#)

4 Rheoliadau Atal Twyll Tai Cymdeithasol (Darganfod Twyll) (Cymru) 2014 (15 munud)

NDM5473 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Atal Twyll Tai Cymdeithasol (Darganfod Twyll) (Cymru) 2014 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Ionawr 2014.

Dogfennau Ategol

[Rheoliadau Atal Twyll Tai Cymdeithasol \(Darganfod Twyll\) \(Cymru\) 2014](#)

[Memorandwm Esboniadol](#) (Saesneg yn Unig)

5 Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2014 (15 munud)

NDM5472 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2014 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mawrth 2014.

Dogfennau Ategol

[Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor \(Diwygiadau Amrywiol\) \(Cymru\) 2014](#)

[Memorandwm Esboniadol](#) (Saesneg yn Unig)

6 Dadl: Darparu Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru (60 munud)

NDM5474 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru i ddarparu cymunedau diogelach i ddinasyddion.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi gyda phryder y cynnydd yn nifer yr ymosodiadau ar griwiau tân ac achub ac effaith hyn ar sicrhau cymunedau mwy diogel.

Gwelliant 2 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru, y Gwasanaethau Tân ac Achub a'r trydydd sector i gynnal gwerthusiad cadarn ar y cyd o ymyriadau diogelwch tân.

Gwelliant 3 – Elin Jones (Ceredigion)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y gwaith hanfodol y mae diffoddwyr tân yn ei wneud – a bod cymunedau Cymru yn dibynnu arnynt am lawer mwy na diffodd tân.

Gwelliant 4 – Elin Jones (Ceredigion)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylid cael dull gweithredu cenedlaethol ar gyfer y gwasanaeth tân ac achub lle mae penderfyniadau gweithredol strategol yn cael eu gwneud ar sail anghenion y gwasanaeth.

Gwelliant 5 – Elin Jones (Ceredigion)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynigion i edrych ar strwythur Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru.

Gwelliant 6 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n agos gyda'r Awdurdodau Tân ac Achub i sicrhau bod y ddarpariaeth yn briodol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

7 Dadl: Mynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol sy'n ymwneud â Thai (60 munud)

NDM5475 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod yr effaith negyddol y mae ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n ymwneud â thai yn gallu ei chael ar bobl ac ar eu hiechyd a'u lles;
2. Yn nodi canfyddiadau ymchwil Llywodraeth Cymru "Wales Anti-Social behaviour: Policy and Practice Review" fel sail ar gyfer gweithredu pellach; ac
3. Yn galw ar sefydliadau perthnasol yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i weithio gyda'i gilydd i daclo ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n ymwneud â thai.

Cewch weld copi o "Wales Anti-Social behaviour: Policy and Practice Review" ar y ddolen ganlynol: <http://wales.gov.uk/topics/housing-and-regeneration/publications/how-social-landlords-tackle-anti-social-behaviour/?skip=1&lang=cy>

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn credu bod polisiau a gweithdrefnau sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fwyaf effeithiol pan maent yn canolbwyntio ar ymyriadau cynnar, atal a chydweithio rhwng asiantaethau.

Gwelliant 2 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ym mhwynt 2, cynnwys 'ac argymhellion allweddol' ar ôl 'canfyddiadau'

Gwelliant 3 – Elin Jones (Ceredigion)

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cyrff perthnasol yn y sector cyhoeddus ac yn y trydydd sector yn cydweithio'n fwy effeithiol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â thai.

Gwelliant 4 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y gorgyffwrdd helaeth rhwng meysydd fel tai, ymddygiad gwrthgymdeithasol, diogelwch cymunedol a phlisma, ac yn credu y byddai modd mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â thai mewn ffordd fwy effeithiol pe bai pob un o'r meysydd hyn yn cael eu datganoli.

8 Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Addysg (Cymru) (15 munud)

Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Addysg (Cymru)

Dogfen Ategol

[Bil Addysg \(Cymru\) – fel y'i diwygiwyd ar ôl Cyfnod 3](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Cyfnod Pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 26 Mawrth 2014